CYPE(6)-01-22 - Papur i'w nodi 8

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Julie Morgan AS

17 Rhagfyr 2021

Cymorth i blant sy'n gadael gofal

Annwyl Julie

Rydym wedi treulio amser dros yr wythnosau diwethaf yn ystyried pa feysydd gwaith ddylai fod yn destun ein hymchwiliadau polisi cyntaf yn y flwyddyn newydd. Mae un maes gwaith posibl yn ymwneud â'r gefnogaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc sydd wedi gadael, neu sydd yn y broses o adael, gofal awdurdod lleol. Mae hwn yn un o ystod o faterion pwysig a godwyd gan randdeiliaid yn ein hymgynghoriad diweddar ar flaenoriaethau'r Pwyllgor.

Er mwyn ein helpu gyda'n blaenraglen waith a'n gwaith cynllunio strategol, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r canlynol inni.

1. Gwybodaeth am ba gefnogaeth sy'n cael ei darparu ar hyn o bryd i blant a phobl ifanc sy'n trosglwyddo o fyw mewn gofal i fyw'n annibynnol a'r rhai sydd wedi gadael gofal, a sut mae effaith y gefnogaeth honno'n cael ei fonitro a'i werthuso. Dylai hyn gynnwys y dyletswyddau **yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** a darparu rhianta corfforaethol ar draws yr ystod eang o wasanaethau statudol gan gynnwys addysg, iechyd a thai. Y data diweddaraf ar ganlyniadau i blant sy'n gadael gofal o ran addysg, cyflogaeth, tai ac iechyd ac unrhyw gynlluniau i gasglu/cyhoeddi data ychwanegol ar ganlyniadau.

2. Diweddariad manwl ar ymrwymiadau'r **Rhaglen Lywodraethu** i:

    - 'ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal' sy'n cynnwys amserlen ar gyfer unrhyw gyhoeddiadau; a

    - Chryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.

3. Diweddariad (sy'n cynnwys cynnydd Llywodraeth Cymru hyd yma, golwg gyfredol ar amserlenni, a sut/gyda phwy y mae polisi'n cael ei ddatblygu) ar y canlynol, fel y nodir yn ei **hymateb i Adroddiad Blynyddol 2020-21 Comisiynydd Plant Cymru**:

    > *"Er ein bod yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion a awgrymwyd gan y Comisiynydd Plant fel pecyn cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal, nid yw'r elfennau statudol yn berthnasol ym mhob achos.*
    >
    > *Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu a gweithredu polisïau i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i symud ymlaen yn llwyddiannus i fod yn annibynnol. Er mwyn gweithredu ar yr ymrwymiad hwn byddwn yn:*
    >
    > - *Deddfu yn ystod y Tymor Senedd hwn i sicrhau bod gan bob un sy'n gadael gofal hawl i gael Cynghorydd Personol hyd at 25 oed;*
    > - *Arsylwi a dysgu o brofiad Lloegr o wahardd defnyddio lleoliadau heb eu rheoleiddio ar gyfer plant dan 16 oed. Defnyddio'r hyn a ddysgwn i archwilio opsiynau diogel a realistig i'w defnyddio yng Nghymru;*
    > - *Gyda'n partneriaid, parhau â'n gwaith i ddatblygu amrywiaeth o opsiynau llety o ansawdd da ar gyfer pobl sy'n gadael gofal;*
    > - *Parhau i gynnig cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n gadael gofal i symud ymlaen yn llwyddiannus i fyw'n annibynnol, ac mae hyn yn cynnwys parhau â'r cymorth a gynigir drwy Gronfa Dydd Gŵyl Dewi.*

4. Diweddariad ar ddatblygu dull amgen i'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' i gefnogi pobl ifanc mewn gofal preswyl i blant.

5. Eglurhad o rôl y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar gyfer Plant Agored i Niwed yn y dyfodol a oedd yn canolbwyntio ar blant sydd wedi bod mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn ystod y Bumed Senedd.

6. Unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i ystyriaeth y Pwyllgor o'r maes polisi pwysig hwn.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallem gael y wybodaeth hon erbyn dydd Iau 13 Ionawr 2022 fan bellaf i lywio ein trafodaeth a fydd yn digwydd yng nghyfarfod y Pwyllgor yr wythnos ganlynol.

Os oes gennych bryderon ynghylch cyrraedd y terfyn amser hwn, neu os hoffech chi neu'ch swyddogion gael eglurhad o unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â chlercod y Pwyllgor (SeneddPlant@Senedd.Cymru).

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.